# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

**RHAN 4**

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

**PENNOD 1**

SEFYDLU, CYFRANOGIAD A CHRAFFU

VALID FROM 01/04/2016

**30 Gwahoddiadau i gyfranogi**

(1) Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal awdurdod lleol wahodd y personau a ganlyn i gyfranogi yng ngweithgarwch y bwrdd—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) prif gwnstabl yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal awdurdod lleol;

(c) y comisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal awdurdod lleol;

(d) person y mae'n ofynnol iddo, yn unol â threfniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 (p.21), ddarparu gwasanaethau prawf mewn perthynas â'r ardal awdurdod leol;

(e) o leiaf un corff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol perthnasol (pa un ai Cyngor Gwirfoddol Sirol y gelwir y corff ai peidio).

(2) Caiff pob bwrdd wahodd unrhyw berson arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus i gyfranogi yng ngweithgarwch y bwrdd, hyd yn oed os yw'r person hwnnw hefyd yn arfer swyddogaethau eraill.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 30. (See end of Document for details)*

(3) Yn yr adran hon ac yn adran 31, mae unrhyw gyfeiriad at gyfranogi yng ngweithgarwch bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn gyfeiriad at gydweithio â'r bwrdd, unrhyw aelod ohono neu unrhyw berson arall sy'n derbyn gwahoddiad i gyfranogi o dan yr adran hon, ar unrhyw beth a wna'r bwrdd o dan adran 36 (Dyletswydd llesiant ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus).

(4) Yn is-adran (3), mae "cydweithio" yn cynnwys—

- (a) cyflwyno sylwadau i'r bwrdd ynghylch cynnwys—
  - (i) asesiad o dan adran 37, neu
  - (ii) cynllun llesiant lleol, cynllun drafft neu ddiwygiadau arfaethedig i gynllun (gweler adrannau 43(1) a 44(4)),
- (b) cymryd rhan yng nghyfarfodydd y bwrdd (sy'n cynnwys, ar wahoddiad aelodau'r bwrdd ac yn ddarostyngedig i baragraffau 2(1) a 3(1) o Atodlen 3, cadeirio'r cyfarfodydd), ac
- (c) darparu cyngor a chymorth arall i'r bwrdd.

(5) Mewn perthynas â pherson sy'n derbyn gwahoddiad i gyfranogi yng ngweithgarwch bwrdd gwasanaethau cyhoeddus—

- (a) cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "cyfranogwr gwadd"; ond
- (b) nid yw'n dod yn aelod o'r bwrdd yn rhinwedd y ffaith ei fod yn derbyn y gwahoddiad.

(6) Nid yw'r cyfeiriad yn is-adran (4)(c) at ddarparu cymorth i'r bwrdd yn cynnwys darparu cymorth ariannol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 30 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 30.